
# Boddi Cwm Tryweryn




## Llyfr darllen a thrafod mewn grŵp

cbac
wjec


Dewiswch liw.



Os ydych yn gweld eich lliw ar y dudalen, chi sydd yn arwain y trafod ar y dudalen honno.

Rydych yn darllen y testun yn y swigod siarad ac yn ymateb.

Mae geiriau a chwestiynau ychwanegol ar fwrdd gwyn yr athro i'ch helpu.



Dilynwch y camau yma:

**1) Rhagfynegi**

Meddyliwch a dywedwch beth rydych chi'n meddwl fydd cynnwys y dudalen.

**2) Egluro**

Siaradwch am eiriau a beth yw eu hystyr.

**3) Gofyn cwestiynau**

Trafodwch sut gallwch chi ddarganfod mwy.

**4) Crynhoi**

Meddyliwch am bwy a beth roedd y dudalen yn sôn yn bennaf.

# Cynnwys




Pentref Capel Celyn .................................................................... 4

Newyddion Brawychus ................................................................. 6

Y Brotest ........................................................................................ 8

Ysgol Capel Celyn .................................................................... 10

Gadael Cartrefi ......................................................................... 12

Boddi'r Cwm ............................................................................. 14

Geirfa ......................................................................................... 16




# Pentref Capel Celyn

Dw i'n edrych ar y dudalen hon a dw i'n meddwl ei bod yn mynd i fod yn sôn am … oherwydd ...

**Ble roedd y pentref?**


Pentref bach yng Nghwm Tryweryn ger Y Bala yn yr hen Sir Feirionnydd oedd Capel Celyn. Roedd yn bentref hapus iawn.



**Cefndir y pentref**

Roedd cymdeithas Cwm Tryweryn yn un Gymreig iawn a mwyafrif helaeth trigolion pentref Capel Celyn yn siarad Cymraeg. Roedd capel, ysgol a llythyrdy yn y pentref yn ogystal â deuddeg o ffermydd. Roedd llawer o drigolion y pentref yn byw ar y ffermydd hyn ac yn ennill eu bywoliaeth drwy ffermio'r tir. Rhyw 48 o drigolion oedd yn byw yno ac roedd y cwm yn cynnwys tua 800 erw o dir i gyd.

Oes yna eiriau dieithr?




## Beth sydd i'w weld yno heddiw?

Llyn Celyn sydd i'w weld yno heddiw. Cronfa ddŵr fawr ar gyfer dinas Lerpwl yw Llyn Celyn a adeiladwyd yn 1961 drwy osod argae ar draws Afon Tryweryn. O ganlyniad i greu'r gronfa, boddwyd pentref Capel Celyn ym 1965 a bu rhaid i'r trigolion adael eu cartrefi a'u ffermydd. Mae Capel Coffa Tryweryn gerllaw Llyn Celyn yn ein hatgoffa fod yno unwaith bentref a chymdeithas Gymreig

Oes gan rywun gwestiwn am beth rydym wedi ei ddarllen?



Achosodd boddi Cwm Tryweryn gryn ddicter yng Nghymru gyda phrotestiadau a dadlau gan wrthwynebwyr. Ond sut digwyddodd hyn? Darllenwch ymlaen i gael yr hanes.




Roedd y dudalen yma yn sôn am ...

# Newyddion Brawychus


Dw i'n edrych ar y dudalen hon a dw i'n meddwl ei bod yn mynd i fod yn sôn am … oherwydd ...

Yn 1955 penderfynodd Cyngor Dinas Lerpwl eu bod am foddi Cwm Tryweryn er mwyn cyflenwi dŵr i'r ddinas. Roedd hi'n rhy gostus i bwmpio dŵr o Ardal y Llynnoedd. Roedd puro dŵr afon Merswy hefyd yn rhy ddrud. Felly, gofynnodd Cyngor Lerpwl i'r senedd yn Llundain am yr hawl i foddi Cwm Tryweryn. Roedd rhaid i aelodau'r senedd bleidleisio o blaid neu yn erbyn y cynllun.




Oes yna eiriau dieithr?

### Ymateb y trigolion lleol i'r newyddion




Roedd y trigolion wedi dychryn wrth glywed y newyddion. Byddai caniatâd gan Lundain i foddi'r Cwm yn golygu gorfodi trigolion y pentref i werthu eu tir a'u ffermydd i'r Llywodraeth a symud i fyw i rywle arall. Roedd Capel Celyn yn gymuned glos Gymreig ac roedd y bobl yn chwyrn yn erbyn gwerthu a symud. Eu dadl oedd y byddai'r gymuned yn chwalu a'u teuluoedd wedi byw yno ers sawl cenhedlaeth. Daeth llawer o bobl ar hyd a lled Cymru at ei gilydd i ffurfio Pwyllgor Amddiffyn. Yn eu plith roedd pobl bwysig iawn fel Syr Ifan ab Owen Edwards a Megan Lloyd George.

Yn ystod cyfnod boddi'r cwm, plentyn yn Ysgol Capel Celyn oedd Eurgain Prysor.

Dyma rai o'i hatgofion hi o'r cyfnod.

"Be dw i'n ei gofio fwyaf am Celyn yw cael ffrindiau i chwarae fin nos a medru cerdded i dai y naill a'r llall. Roeddem yn cael hwyl garw yng nghwmni ein gilydd. Pan ddaeth y gweithwyr i mewn i'r cwm i ddechrau adeiladu'r argae nid oedd hi'n bosib crwydro'n rhydd o gartref gan mor brysur a pheryg oedd y ffyrdd.
Roedd bywyd wedi newid yn llwyr a phob sicrwydd ar gyfer y dyfodol wedi diflannu. Rydw i'n cofio colli Mrs Roberts fel Prifathrawes. Roedd hi fel Mam i ni ac yn ein dysgu ni yn arbennig o dda."



Penderfynwyd protestio ac arweiniodd Gwynfor Evans, Aelod Seneddol Plaid Cymru, orymdaith yn Lerpwl.



# Y Brotest




Dw i'n edrych ar y dudalen hon a dw i'n meddwl ei bod yn mynd i fod yn sôn am … oherwydd …

Cafodd trigolion Capel Celyn gefnogaeth ar hyd a lled y wlad. Bu llawer yn brysur yn ysgrifennu llythyron at aelodau seneddol. Roedd eraill yn ysgrifennu yn y papurau newydd. Difrododd tri dyn o'r enw Emyr Llewelyn Jones, Owain Williams a John Albert Jones, drosglwyddydd yn Tryweryn i geisio rhwystro'r cynllun ac aeth y tri i'r carchar am y weithred.

Ym mis Tachwedd 1956 cafwyd gorymdaith yn Lerpwl. Arweiniodd Gwynfor Evans 70 o bentrefwyr gyda baneri drwy'r ddinas i ddangos eu gwrthwynebiad i'r cynllun. Cafodd llawer o blant y cwm ddiwrnod o'r ysgol er mwyn iddynt gymryd rhan yn yr orymdaith yn Lerpwl.


**Ymateb Lerpwl**

Er bod rhai yn Lerpwl yn cydymdeimlo gryn dipyn â'r protestwyr o Gymru, roedd eraill yn gwbl benderfynol mai hawliau eu dinas nhw a ddylai ddod yn gyntaf.

Oes yna eiriau dieithr?









**Atgofion Elwyn Edwards a ymunodd â'r brotest yn 13 oed.**

"Dydd Mercher Tachwedd 21 1956 trefnwyd dau fws i fynd i Lerpwl i brotestio yn erbyn y boddi. Penderfynais beidio â mynd i'r ysgol y diwrnod hwnnw a bod rhaid i mi fynd i Lerpwl i brotestio yn erbyn eu cynlluniau gwallgo'. Yr hyn sydd wedi glynu'n y cof yw bod rhai o hen wragedd y lle yn ein gwylio ar ochr y strydoedd ac yn gweiddi ac yn ein galw'n bob enw."




Oes gan rywun gwestiwn am beth rydym wedi ei ddarllen?

Roedd y dudalen yma yn sôn am ...

## Pleidlais

Er gwaethaf hyn i gyd, nid oedd Cynghorwyr Lerpwl am newid eu meddwl ac fe gawsant gefnogaeth Aelodau Seneddol Lloegr. Pasiodd y Senedd ddeddf yn caniatáu boddi'r dyffryn o 175 o bleidleisiau i 79. Ni phleidleisiodd yr un o Aelodau Seneddol Cymru o blaid y cynllun.
Roedd y gwaith o foddi'r cwm, y tai, y ffermydd, y siop, yr ysgol a'r capel wedi cael ei gymeradwyo.

# Ysgol Capel Celyn


Dw i'n edrych ar y dudalen hon a dw i'n meddwl ei bod yn mynd i fod yn sôn am … oherwydd …

Agorwyd Ysgol Capel Celyn yn 1881. Roedd hi'n ysgol hapus iawn. Yn dilyn y penderfyniad i foddi'r cwm roedd rhaid i'r plant symud i ysgol arall. Roedd ysgol newydd i gael ei hadeiladu yn Frongoch ar gyfer disgyblion Ysgol Capel Celyn a dwy ysgol gynradd fechan arall. Fodd bynnag, doedd yr ysgol ddim yn barod mewn pryd ac fe aeth y plant ar wasgar. Aeth y rhan fwyaf i Ysgol Cwmtirmynach ac aeth un i Ysgol Gynradd Y Bala ynghyd â'r brifathrawes.




Dyma lun disgyblion olaf Ysgol Capel Celyn gyda'u hathrawes Mrs Martha Roberts

## Diwrnod Olaf Yr Ysgol




Roedd diwrnod olaf y plant yn yr ysgol yn ddiwrnod arbennig iawn. Trefnwyd cyfarfod a gwasanaeth olaf yn yr ysgol ar Orffennaf 25ain 1963. Roedd Griffith Hughes, 90 mlwydd oed o Awelfryn, Bala yn bresennol.

Griffith Hughes oedd yr ail enw ar y gofrestr pan agorodd yr ysgol yn 1881.


Siaradodd y brifathrawes am hanes yr ysgol ers 1881 a chyflwynwyd Testamentau i blant yr ysgol. Siaradodd rhai o'r cyn-ddisgyblion am eu hatgofion yn yr ysgol.


Roedd y plant yn teimlo'n drist iawn a rhai ohonynt yn ofnus gan eu bod yn medddwl bod y dŵr yn mynd i ddod yn sydyn a'u boddi.

## Cacen Tryweryn

Roedd tawelwch mawr yn yr ystafell pan gyhoeddodd Mr David Roberts, llywydd y cyfarfod, fod cacen wedi cyrraedd i'w rhannu rhwng y plant. Aelodau ifanc Plaid Cymru ym Mhwllheli oedd wedi gyrru'r gacen ac wedi ysgrifennu arni roedd y geiriau "I Blant Tryweryn". Ar y cerdyn a ddaeth gyda'r gacen roedd y geiriau "Ar ran John, Owain ac Emyr i Blant Tryweryn."

Roedd newyddiadurwyr wedi dod i'r pentref y diwrnod hwnnw ac roedd hanes diwrnod olaf yr ysgol ar y teledu ac yn y papurau newydd.






Caeodd drysau'r ysgol ar Orffennaf 28ain 1963.



# Gadael Cartrefi

Dw i'n edrych ar y dudalen hon a dw i'n meddwl ei bod yn mynd i fod yn sôn am … oherwydd …

Yn dilyn penderfyniad y senedd i foddi'r cwm roedd rhaid chwalu pob adeilad i'r llawr. Bu rhaid i'r ffermwyr werthu eu stoc a'u heiddo. Roedd rhai yn colli cartref a thir.



Cafwyd gwasanaeth olaf yng Nghapel y pentref cyn ei ddymchwel gan beiriannau trymion. Roedd y Capel yn bwysig iawn i'r gymdeithas yng Nghapel Celyn.

Boddwyd deuddeg o ffermydd yng Nghapel Celyn a thir yn perthyn i ffermydd eraill. Collwyd 800 erw o dir amaethyddol i gyd.


Bu rhaid i 48 o drigolion hel eu pac a mynd i fyw i rywle arall. Talodd Cyngor Dinas Lerpwl iawndal i'r rhai oedd yn berchen ar dai a thiroedd. Adeiladwyd tai cyngor yn Frongoch ar gyfer rhai trigolion oedd yn rhentu eu cartrefi. Aeth cymdeithas gyfan i'r pedwar gwynt.



Dau o drigolion Capel Celyn yn gadael eu cartref am y tro olaf.

Oes gan rywun gwestiwn am beth rydym wedi ei ddarllen?


Oes yna eiriau dieithr?




## Dyma'r cartrefi, y ffermydd a'r adeiladau a chwalwyd.

Moelwyn
Glan Celyn
Y Fynwent
Tynybont
Brynhyfryd
Cae Fadog
Coed Mynach
Garnedd Lwyd
Hafod Fadog
Y Tyrpeg
Gwerndelwau
Y Llythyrdy Tŷ Capel
Yr Ysgol
Y Gelli
Penbryn Mawr
Dôl Fawr
Maen Mawr
Mynwent Y Crynwyr
Tyddyn Bychan






Roedd y dudalen yma yn sôn am ...

# Boddi'r Cwm

Dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn Awst 1960 a pharhaodd hyd Awst 1965 gan greu llyn ryw ddwy filltir a hanner o hyd a milltir ar draws. Dyfnder y llyn ydy 140 troedfedd yn ei fan dyfnaf ac mae'n gallu dal 16,400 miliwn o alwyni o ddŵr.

**Yr Agoriad Swyddogol**

Ar ôl gorffen y gwaith adeiladu, penderfynwyd cael agoriad swyddogol i'r llyn ym mis Hydref 1965. Roedd llawer o bobl yn meddwl bod hyn yn syniad annoeth a bod Lerpwl yn rhoi halen ar y briw ond penderfynu mynd ymlaen wnaeth y ddinas.



Trefnwyd protest yn erbyn yr agoriad swyddogol ac ymunodd dros ddau gant a hanner o gefnogwyr. Ceisiodd y protestwyr rwystro ceir y gwahoddedigion o Lerpwl rhag cyrraedd a chafodd yr heddlu drafferth i gadw'r ffordd yn glir.


Teimlai llawer ei bod yn rhy hwyr o lawer – roedd y cwm wedi ei foddi.

Dw i'n edrych ar y dudalen hon a dw i'n meddwl ei bod yn mynd i fod yn sôn am … oherwydd ...

Oes yna eiriau dieithr?



Oes gan rywun gwestiwn am beth rydym wedi ei ddarllen?





"Mae pawb wedi chwalu ar ôl i'r llyn ddod, mae Elwyn wedi symud lawr i Frongoch ac mae Geraint yn rhy bell i fynd i chwarae ar fin nos ac felly mi rydw i'n gorfod chwarae ar ben fy hun rwan."


**Aeron Prysor Jones**
(un o ddisgyblion olaf yn yr ysgol)

Roedd y dudalen yma yn sôn am ...

# Hel Meddyliau

Meddyliwch am ffeithiau pwysig a ffeithiau diddorol yr ydych wedi eu darllen a'u trafod. Gosodwch nhw o fewn yr olwyn.




Ffeithiau Diddorol
Tryweryn

# Geirfa

*yn y drefn maen nhw'n ymddangos yn y llyfr.*

| |
|---|
| cymdeithas |
| trigolion |
| gwrthwynebwyr |
| bywoliaeth |
| gerllaw |
| dicter |
| protest |
| brawychus |
| puro |
| Aelodau Seneddol |
| pleidleisio |
| cynllun |
| cymuned |
| cenhedlaeth |
| Pwyllgor Amddiffyn |

| |
|---|
| technoleg |
| pryder |
| gorymdaith |
| ar hyd a lled |
| gwallgo |
| gweithred |
| gorymdaith |
| cydymdeimlo |
| cymeradwyo |
| ar wasgar |
| testamentau |
| dyfnder |
| i’r pedwar gwynt |
| eiddo |
| swyddogol |

# Cofeb ar fur yn Llanrhystud




Cafwyd ymddiheuriad gan Gyngor Dinas Lerpwl ar Hydref 19eg 2005.

"Rydyn ni'n sylweddoli'r gofid hanner can mlynedd yn ôl pan gafodd Cwm Tryweryn ei drawsnewid yn argae i helpu i gwrdd ag anghenion dŵr Lerpwl."

"Rydyn ni'n ymddiheuro am unrhyw ansensitifrwydd gan y cyngor yr adeg honno ac yn gobeithio y gellir adfer y berthynas hanesyddol a chadarn rhwng Lerpwl a Chymru yn llwyr."